BAVO

Bridgend Association of Voluntary Organisations
Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr




# Adroddiad Effaith Blynyddol
# 2021-22

# Adroddiad y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol

Croeso i'n hadolygiad blynyddol ar gyfer 2021/2022, sy'n arddangos yr effaith y mae BAVO wedi'i chael ar grwpiau cymunedol a thrigolion mewn cyfnod sydd wedi parhau i fod yn anodd i lawer. Parodd y pandemig yn hirach na'r disgwyl, ac mae wedi effeithio ar bob un ohonom yn sylweddol, ond ni fu erioed olau disgleiriach ar y sector gwirfoddol a chymunedol. Crynhodd yr ymgyrch #NawrFwyNagErioed hyn yn berffaith.

Symudodd BAVO o arwain yr ymateb cymunedol i COVID-19 a dechrau'n raddol ar 'normal newydd', gan barhau i weithio gydag aelodau wrth i gyfyngiadau gael eu llacio ac wrth i ni symud ein sylw i helpu grwpiau lleol ailgychwyn, ailadeiladu ac adfer.

Fel ag erioed, gwnaethom weithio i godi ymwybyddiaeth o'r gwaith gwych sy'n digwydd yn y sector, gan dynnu sylw at y gweithgareddau, y cyfleoedd a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i gefnogi gwaith atal a llesiant a gwella bywydau trigolion yn y pen draw. Gwnaethom hefyd gyfrannu at hyn drwy ein tîm 'llywiwr cymunedol' presgripsiynu cymdeithasol.

Gwnaethom barhau i weithio ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a phartneriaid allweddol eraill. Trwy ein dull cymunedau dyfeisgar a chydlynus, gwnaethom ddechrau a datblygu mwy o rwydweithiau o ddarparwyr cymunedol a thrydydd sector. Nid yw pob un yn cael ei gynnal gan BAVO, ond rydym yn parhau i'w hybu'n drylwyr ar eu cyfer, ac ar gyfer cysylltu grwpiau a phobl i un arall i leihau cystadleuaeth a dyblygu ac annog cyd-gynhyrchu a chydweithredu.

Er mwyn cyfeirio'r adnoddau i'r union le mae eu hangen, gweithiodd ein tîm o lywyr cymunedol a swyddogion datblygu mewn lleoliadau cymunedol ac ymweld a chysylltu â grwpiau lleol yn ddyddiol. Mae bob amser yn bwysig i ni gadw i fyny gyda'r diweddaraf er mwyn i ni allu cynghori a dylanwadu ar randdeiliaid, a'u diweddaru am y gwaith rhagorol mae ein haelodau yn ei wneud eisoes neu'n bwriadu eu datblygu, a chael unrhyw gyllid yn gyflym i'r grwpiau sydd ei angen. Felly, rydym wrth ein bodd gallu dosbarthu cyllid sylweddol ar ran cyllidwyr fel LlC, CGGC a CBS Pen-y-bont ar Ogwr i gael bron i hanner miliwn o bunnoedd mewn grantiau a buddsoddiad yn ein sector lleol eleni.

Mae'r adroddiad hwn yn disgrifio rhai o'n cyflawniadau ond ni fyddai dim wedi bod yn bosibl heb gymorth ein partneriaid a'n cyllidwyr. Rydym yn hynod ddiolchgar i Lywodraeth Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Bwrdd Iechyd Cwm Taf, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol am eu cymorth i BAVO, ac i'r sector gwirfoddol a chymunedol ehangach ledled Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Serch hynny, yr elfen allweddol i'n llwyddiant yw ein staff a'n gwirfoddolwyr, ac rydym yn hynod falch ohonyn nhw. Maen nhw wedi gweithio'n ddiflino ers Covid, gyda llawer yn cyflawni rolau newydd ac yn destun newid rheolaidd a chyflym. Ar ôl Covid, ymddeolodd neu gadawodd nifer o aelodau tîm hirsefydlog yn ystod y flwyddyn, felly mae mwyafrif tîm BAVO yn gymharol newydd! Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i gyfleu ein diolch i'r holl staff, gwirfoddolwyr ac yn wir, ein Hymddiriedolwyr - gorffennol a phresennol - am eu hymroddiad, hyblygrwydd, amynedd ac ymrwymiad.

Wrth i ni ddechrau ein 25ain flwyddyn, rydym yn parhau i fod mewn cyfnod anodd gyda'r argyfwng costau byw o'n blaenau. Fodd bynnag, byddwn yn ymdrechu i weithio ar y cyd i geisio lliniaru effaith hyn ar ein sector a'n trigolion.

Mae ein diolch olaf i'n holl aelodau a grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws ein Bwrdeistref sy'n gwneud gwaith anhygoel yn cyflawni pethau rhagorol ac yn newid bywydau er gwell.



**Steve Curry**
Cadeirydd



**Heidi Bennett** MBA, MCIPD
Prif Weithredwr



## Ymddiriedolwyr BAVO


Cadeirydd: Steve Curry

Is-gadeirydd: Marged Griffiths

Mari Major MBE

Richard Young

Clive Owen BEM (hyd at 2022)

Peter Edwards

Amanda Edwards


# Staff Presennol

| | |
|---|---|
| **Heidi Bennett** | Prif Weithredwr |
| **Kay Baker** | Rheolwr Gweithrediadau a Phartneriaethau |
| **Caroline Wellings** | Swyddog Cyllid |
| **Claire Emanuel** | Swyddog Datblygu a Grantiau – Arweinydd Tîm |
| **Alison Mawby** | Datblygiad a Chysylltiadau Trydydd Sector |
| **Mark Fitzgerald** | Datblygiad a Chysylltiadau Trydydd Sector |
| **Rhodri Powell** | Datblygwr Rhwydweithiau Trydydd Sector |
| **Jackie Prosser** | Datblygwr Rhwydweithiau Cymunedol |
| **Julia Andrews** | Cynorthwyydd y Rheolwyr a Llywiwr Cymunedol |
| **Laura Dadic** | Swyddog Datblygu Iechyd Meddwl |
| **Lucy Williams** | Defnyddiwr Gwasanaeth Iechyd Meddwl a Swyddog Cynnwys Gofalwyr |
| **Cath Thomas** | Swyddog Partneriaethau Iechyd |
| **Gail Devine** | Llywiwr Cymunedol – Arweinydd Tîm |
| **Rob Wood** | Llywiwr Cymunedol |
| **Paul Evans** | Llywiwr Cymunedol |
| **Georgina Powell** | Llywiwr Cymunedol |
| **Fiona Burlingham** | Llywiwr Cymunedol |
| **Russ Creemer** | Llywiwr Cymunedol |
| **Tom McGeoch** | Pwynt Mynediad Cyffredin |
| **Alex Bowen** | Llywiwr Gwyrdd a Chymorth Datblygu |
| **Sharon Headon** | Swyddog Datblygu Gwirfoddoli |
| **Abi Jenkins** | Swyddog Cyfeillion Cymunedol |

# Crynodeb o gyflawniadau

## Gwirfoddoli

**343** o ymholiadau gwirfoddoli
**73** o sefydliadau wedi'u cefnogi drwy arfer da gwirfoddoli
**167** o wirfoddolwyr wedi'u cefnogi
**79** o bobl wedi'u lleoli mewn gwaith gwirfoddol
**46** o gyfeillion gwirfoddol

## Ymgysylltu a Dylanwadu

**13** o Rwydweithiau a fforymau'r trydydd sector
**93** o grwpiau cynllunio strategol/gweithgorau yn cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector
**380** o unigolion yn mynychu rhwydweithiau a digwyddiadau

## Llywodraethu Da

**1327** o geisiadau am gymorth
**302** o grwpiau wedi'u cefnogi â chyngor
**396** o aelodau
**111** yn mynd i'n hyfforddiant

## Cyllid Cynaliadwy

**£250,195** o gyllid wedi'i dderbyn gan grwpiau yn dilyn cyngor
**£488,259** o gyllid wedi'i ddarparu drwy gynlluniau grant wedi'u gweinyddu gan BAVO
**128** o sefydliadau wedi'u cefnogi â chyllid

# Gwirfoddoli

Wrth i bobl ddychwelyd i'w gweithleoedd a'u bywydau bob dydd yn dilyn y pandemig, gostyngodd capasiti gwirfoddoli'n sylweddol. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu cymorth gwirfoddoli i aelodau. Rydym yn cydnabod bod gwirfoddolwyr yn hanfodol i dwf a llwyddiant y sector, ac yn parhau i fod yn swyddogaeth graidd i BAVO.

Mae ein tîm Gwirfoddoli yma i wneud y canlynol:

- Hybu arfer da ac arloesedd ym maes gwirfoddoli – i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan a chynyddu effaith gwirfoddoli;
- Darparu gwybodaeth, arweiniad a gwasanaeth cyfeirio – i unigolion wirfoddoli ac i sefydliadau ddatblygu lleoliadau gwirfoddoli o safon;
- Rheoli cronfa ddata o gyfleoedd gwirfoddoli – i frocera a rheoli gwirfoddoli;
- Hwyluso rhwydweithiau a hyfforddiant – i ddysgu, rhannu a gwella'r profiad gwirfoddoli'n barhaus;
- Trefnu digwyddiadau, hyrwyddo a chydnabod – i hyrwyddo a dathlu cyflawniad gwirfoddolwyr a hyrwyddo cyfraniad pwysig gwirfoddoli at lesiant ein cymunedau.

## Beth wnaethom ei gyflawni?

Ymateb i **343** o ymholiadau gwirfoddoli penodol

Hwyluso **2** gyfarfod rhwydwaith Rheolwyr Gwirfoddoli a oedd yn cynnwys **12** o sefydliadau

Mynychu **21** o ddigwyddiadau i hyrwyddo gwirfoddoli i fyfyrwyr, cyflogwyr a grwpiau cymunedol

Cyflwyno **1** sesiwn hyfforddi gwirfoddolwyr i **8** person

Cefnogi **73** o sefydliadau â chanllawiau arfer da gwirfoddoli

Cefnogi **167** o wirfoddolwyr

Lleoli **79** o bobl mewn lleoliadau gwirfoddoli

## Ein Prosiectau Gwirfoddoli

Gwnaethom hefyd arwain dwy raglen gwirfoddoli a ganolbwyntiodd ar helpu oedolion ag anghenion penodol.

### Focus Forward >>

Nod y prosiect hwn yw symud pobl yn nes at gyflogaeth drwy gynnig hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli gyda'r nod o fagu hyder a sgiliau a'u symud ymlaen i waith â thâl. Eleni fe wnaethom helpu'r canlynol:

**24** o bobl wedi'u hatgyfeirio i'r prosiect ac yn cael cymorth cychwynnol

**6** o bobl wedi cwblhau nifer o gyfleoedd hyfforddi

**11** o bobl wedi'u lleoli'n llwyddiannus mewn lleoliadau gwirfoddoli

**1** person wedi cael cyflogaeth

## Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

"Rwy'n gwirfoddoli gyda STEER tra fy mod i yn y brifysgol ac maen nhw'n fy helpu gyda fy ngorbryder. Mae gofalu am anifeiliaid yn therapiwtig iawn ac yn helpu i leihau fy lefelau straen. Fel grŵp i wirfoddolwyr rydym ni wedi sefydlu system Gwenyn, wedi cael hyfforddiant hefyd ac mae gwirfoddoli wedi bod yn wych ar gyfer fy CV. Diolch i bawb yn STEER am adael imi fod yn wirfoddolwr a gofalu am y gwenyn a'r ceffylau, maen nhw'n gwneud i mi deimlo mor dda."

**Gwirfoddolwr Ifanc STEER**

"Dros y pedair blynedd diwethaf rwyf wedi bod yn ofalwr llawn amser gartref. Mae gwirfoddoli wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy hyder, a fy ngalluogi i wneud cais am swyddi, gan wybod fy mod yn gallu gwneud swyddi â thâl. Rwyf bellach wedi cael cynnig cyflogaeth, fel derbynnydd rhan-amser, mewn cartref nyrsio. Ni fyddai wedi bod yr hyder geni i wneud cais am y swydd hon os nad oeddwn yn gwirfoddoli. Mae hyn hefyd wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i fy hunan-barch ac rwy'n hapusach yn fy hun. Mae'n hyfryd iawn, bod o amgylch pobl eto, yn enwedig wrth fynd drwy'r pandemig. Rwyf hefyd wedi cwrdd â phobl anhygoel wrth wirfoddoli."

**Gwirfoddolwr The Bridge MPS**

"Mae gwirfoddoli wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i fy hyder a chadernid. Rwyf wedi dod yn llawer mwy bodlon gyda bywyd ac yn gweld syniad o gyfeiriad o'r diwedd. Rwyf wedi datblygu llawer o sgiliau a rhinweddau yn ystod fy amser yn gwirfoddoli, er enghraifft mae fy hyder, sgiliau cyfathrebu ac arwain wedi gwella'n enfawr."

"Rwyf i'n sicr wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wirfoddoli. Un maes pwysig o ddatblygiad personol oedd cyflogaeth. Pan ddechreuais wirfoddoli roeddwn i'n ddi-waith heb syniad o fy nyfodol. Nawr mae gen i gyflogaeth gyda'r mudiad Clybiau Bechgyn a Merched Cymru fel gweithiwr cymorth ieuenctid ac mae gen i syniad go lew i ba gyfeiriad rwy eisiau i fy nyfodol fynd. Rwyf i hefyd wedi meithrin cysylltiadau â chydweithwyr a phobl ifanc rwy'n falch iawn ohonyn nhw!"

**Gwirfoddolwr Clwb Bechgyn a Merched Betws**

## Cyfeillion Cymunedol

Parhaodd ein cynllun cyfeillio i ddatblygu ac addasu yn ystod y newidiadau parhaus i ganllawiau'r llywodraeth o ganlyniad i Covid, ac i gynnal arferion gweithio diogel. Cynhaliodd y tîm asesiadau risg uwch yn ystod y flwyddyn a chynnal gwasanaeth wyneb yn wyneb a dros y ffôn. Mae'r cynllun yn cefnogi pobl hŷn a phobl sy'n gaeth i'r tŷ sy'n teimlo'n ynysig ac yn unig. Yn anffodus, mae'r angen am y gwasanaeth wedi cynyddu dros y 2 flynedd ddiwethaf, ac rydym wedi ei chael yn anodd recriwtio gwirfoddolwyr i'r prosiect. Eleni, fe wnaethom helpu'r canlynol:

**54** o bobl hŷn wedi'u paru â chyfaill

**15** o wirfoddolwyr i ddarparu cymorth wyneb yn wyneb

**39** o gyfeillion dros y ffôn

## Panel grantiau dan arweiniad Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr

Pobl ifanc i gyd yw'r panel cyllid sy'n gwneud penderfyniadau wrth ddyfarnu'r grantiau hyn sy'n ceisio annog mwy o ieuenctid i wirfoddoli. Mae bod yn aelod o'r panel yn helpu'r bobl ifanc i ddatblygu ystod o sgiliau gan gynnwys sgiliau asesu, rheoli cyllideb a monitro a gwerthuso. Fe wnaeth y panel y canlynol:

Cefnogi **4** aelod panel ifanc a gyfarfu ddwywaith yn ystod y flwyddyn

Dosbarthu **£8,460** i **5** grŵp lleol

Galluogi **80** person ifanc arall i wirfoddoli mewn prosiectau o ganlyniad i'r cyllid

# Llywodraethu Da

Darparodd ein Tîm Datblygu wybodaeth, arweiniad a chymorth i sefydliadau yr oedd angen cymorth arnynt ar bob math o faterion o sefydlu elusennau i'w dirwyn i ben a phopeth rhwng y ddau. Gwnaethon nhw hefyd ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd datblygu drwy gyfarfodydd ar-lein drwy gydol y flwyddyn a chefnogi Rhwydwaith Ymddiriedolwyr.

Cynorthwyodd ein Datblygwyr Rhwydwaith unigolion i gymryd eu syniadau ar gyfer gweithgaredd cymunedol a'u gwireddu, drwy eu cysylltu â sefydliadau arbenigol ledled Cymru a grwpiau eraill ledled y Sir i'w helpu i wneud hynny. Hwylusodd y tîm grwpiau a rhwydweithiau a'u meithrin, gan ddod â nhw at ei gilydd a'u cysylltu pan oedd nodau a dyheadau cyffredin. Arweiniodd hyn at rannu adnoddau gan rai grwpiau, cymorth arbenigol a galluogodd gydlyniad a chydweithrediad gwell wrth i lawer o grwpiau ddysgu oddi wrth ei gilydd.

Cadwodd y tîm wybodaeth gyffredinol ac adnoddau wedi'u diweddaru ar Hwb Gwybodaeth Cefnogi Trydydd Sector Cymru (TSSW) sydd ar gael 24/7. Gwnaethon nhw hefyd ddarparu hyfforddiant ar Infoengine.cymru lle gall grwpiau hyrwyddo'u gwaith i gyllidwyr a'r rhai y mae angen cymorth arnyn nhw.

## Beth wnaethom ei gyflawni?

**1,327** o ymholiadau grwpiau ac Ymddiriedolwyr wedi'u cwblhau

**302** o grwpiau wedi cael cymorth wedi'i deilwra i gryfhau eu sefydliad

**396** o aelodau, cynnydd ar y flwyddyn flaenorol

**17** o sesiynau hyfforddi gyda **111** yn bresennol

## Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

### Shedquarters – Caffi Trwsio Maesteg

Cysylltodd BAVO y grŵp â Chaffi Trwsio Cymru i sicrhau bod y grŵp yn cael yr holl ganllawiau, gwaith papur a gwybodaeth ofynnol i ffurfio'r gweithgaredd newydd a helpu'r prosiect i lwyddo. Cyfarfu datblygwr rhwydwaith BAVO â'r grŵp yn rheolaidd, helpodd i drefnu digwyddiadau a denu gwirfoddolwyr a threfnu'r lansiad. O ganlyniad i gymorth grant, pasiodd tri aelod eu cwrs profi PAT ac maen nhw'n gymwysedig bellach i brofi eitemau trydanol sydd wedi'u trwsio gan wirfoddolwyr.

Cymerodd y prosiect chwe mis i'w sefydlu gan ei wneud y Caffi Trwsio cyntaf i gael ei lansio yn Sir Pen-y-bont ar Ogwr.

Bu presenoldeb da mewn digwyddiadau misol ac mae'r sylwadau a gafwyd gan y gymuned wedi bod yn bositif. Mae Caffis Trwsio newydd yn cael eu sefydlu ledled y Fwrdeistref. Mae effaith amgylcheddol gadarnhaol i hwn, trwy ailddefnyddio a thrwsio eitemau mae'n lleihau safleoedd tirlenwi ac yn helpu yn ystod argyfwng costau byw hefyd.





## Hut 9

Rydym yn grŵp lleol o wirfoddolwyr sy'n helpu i gynnal hanes unigryw a phwys cenedlaethol sylweddol Hut 9; yr adeilad olaf sy'n weddill yn Island Farm, Pen-y-bont, cyn wersyll carcharorion rhyfel yr Almaen.

Mae gennym lawer o nodau ar gyfer y dyfodol gan gynnwys cadwraeth yr adeilad, ei dwnnel dianc a chasglu a chadw'r holl ddeunyddiau sy'n berthnasol Island Farm.

O weithio trwy'r ffurflen gais, diffinio amcanion neu ddibenion ein Sefydliad Corfforedig Elusennol mewn dwy frawddeg a chwblhau ein dogfen lywodraethu (neu gyfansoddiad), roedd llawer o beth newydd i'w dysgu ac mae hynny'n parhau. Rydym wedi cael sawl adnodd gan BAVO, gan gynnwys cyflwyniadau ar-lein niferus a seminarau am swyddogaethau elusennau eraill, fel rhodd cymorth, cofrestru TAW, diogelu, ac ati.

Daeth BAVO i rai o'n cyfarfodydd pwysig a hyd yn oed cymryd cofnodion o gyfarfod pwysig a chritigol rhwng ein grŵp, CBS Pen-y-bont ar Ogwr a CADW. Gwnaeth BAVO y cyfan yn bosibl, a'n helpu i fod yn elusen mewn cyfnod cymharol fyr. Cyflwynwyd ein cais ar 1 Chwefror 2022. Cofrestrwyd y Sefydliad Corfforedig Elusennol ar 25 Chwefror 2022.

"Heb gymorth, cefnogaeth ac anogaeth BAVO, a chariad a gofal aelodau BAVO am eu gwaith a'n grŵp brwdfrydig o wirfoddolwyr, ni fyddem wedi cyflawni statws elusen mewn cyn lleied o amser, ac ni fyddem wedi gallu dysgu gymaint mor gyflym a chynnal ein proses ymgeisio mor esmwyth."

## Canolfan Talbot, Mynydd Cynffig

Nododd staff a gwirfoddolwyr Canolfan Talbot yr angen i sefydlu man casglu Undeb Credyd yn y Ganolfan ond nid oedden nhw'n gwybod ble i ddechrau arni. Agorodd BAVO gysylltiad rhyngddyn nhw ac Undeb Credyd Bridgend Lifesavers a oedd yn gallu gwasanaethu ardal Mynydd Cynffig, a dros gyfnod o dri mis, trefnodd a hwylusodd BAVO gyfarfodydd rhwng Rheolwr yr Undeb Credyd a staff a gwirfoddolwyr Canolfan Talbot i drafod gofynion y ddau barti a symud pethau ymlaen.

Dechreuodd y man casglu ym mis Chwefror 2022 ac mae'n gweithredu'n wythnosol. Bu'n llwyddiannus iawn ac mae'n galluogi trigolion Mynydd Cynffig, Y Pîl a Chorneli i gael gafael ar gynllun cynilo lleol, benthyciadau cost isel a chyngor ar reoli arian. Mae Canolfan Talbot bellach yn ystyried sefydlu un yn yr ysgol gynradd fel y gall plant lleol ddysgu i gynilo o oedran cynnar hefyd.

"Mae hyn wedi rhoi'r cyfle i ni weithio ar brosiect, rhannu sgiliau a phrofiadau a chynyddu lefelau cynnwys y gymuned. Diolch BAVO."

# Cyllid cynaliadwy

Helpodd ein gwaith cyllid cynaliadwy grwpiau cymunedol a gwirfoddol i wella'u cydnerthedd a meddu ar y sgiliau, gwybodaeth a chapasiti i gynnal eu sefydliadau.

Helpodd y gwasanaeth grwpiau i sicrhau a chynhyrchu'r adnoddau angenrheidiol i oroesi a thyfu. Gwnaethon nhw gyflwyno hyfforddiant, rhoi cyngor ar ffrydiau cyllid oedd ar gael ac arfer da o ran codi arian, a helpu grwpiau i flaengynllunio i godi lefelau incwm a enillir. Gwnaeth y gwasanaeth hwn hefyd groestorri â gwaith datblygu gan sicrhau bod gan grwpiau dref lywodraethu a pholisïau cadarn ar waith i roi sicrwydd i ddarpar gyllidwyr. Gwnaethom hefyd gais am gyllid a/neu ei negodi i'r sector lleol, a rheoli sawl cynllun grant lleol a oedd yn gallu cyllido gwaith dwsinau o grwpiau lleol. Sicrhaodd y tîm hefyd fod y porth Cyllido Cymru wedi'i ddiweddaru â gwybodaeth am gyllid i aelodau gael gafael arni 24/7.

## Beth wnaethom ei gyflawni?

**£250,195** o gyllid wedi'i sicrhau gan grwpiau drwy ddilyn cyngor BAVO

**£488,259** o gyllid wedi'i ddarparu drwy gynlluniau grant a weinyddwyd gan BAVO

**128** o sefydliadau wedi'u cefnogi â chyllid



## Pa wahaniaeth wnaeth hyn?

### Tanio

Gweithiodd Tanio mewn 3 ysgol a gyda phlant 7-11 oed, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol a gwahanol alluoedd cyfathrebu, gan gynnwys di-eiriau a'r rhai sy'n arwyddo. Cefnogodd y prosiect lesiant emosiynol y plant gan ddefnyddio'r pwnc newid hinsawdd.

Mae'r adborth gan y plant, y staff a'r hwyluswyr wedi dangos mwy o barch tuag at y blaned ac mae'r plant wedi datblygu dealltwriaeth ddyfnach o beth sy'n digwydd ac wedi cael adnoddau i wneud gwahaniaeth. Trwy'r broses gwnaethon nhw ddysgu sut i fynegi eu pryderon ac ymdrin â nhw.

> Dywedodd un person ifanc "rwy wedi ymlacio ac yn teimlo'n hapus yn gwneud hyn ac ysgol goedwig."



## Eglwys Sant Tyfodwg

Yr Eglwys oedd yr unig adeilad cyhoeddus yn y pentref. Mae Glynogwr yn bentref gwledig ynysig, felly roedd hi'n hollbwysig bod gennym fan cyfarfod i dynnu'r gymuned at ei gilydd, i leddfu'r ynysigrwydd cymdeithasol, i gael y galon yn curo unwaith eto ar ôl ei cholli rai blynyddoedd yn flaenorol. Gallai'r eglwys ddarparu'r canolbwynt hwnnw, ond roedd angen i ni ddarparu toiled anabl, cegin a chyfleuster cymunedol at ddefnydd mwy cymunedol. Mae'r Eglwys yn adeilad rhestredig ac roedd costau gosodiadau o'r fath yn uchel iawn, roedd angen i ni wneud cais am gyllid a chael cyngor ar beth oedd ei angen wrth gwblhau ceisiadau. Gan ein bod yn aelodau BAVO cawsom ein gwahodd i gymorthfeydd cyllid, a rhoddwyd cyngor wrth gwblhau'r ceisiadau, nid oeddem ni byth wedi gwneud hyn o'r blaen ac roedd angen arweiniad arnom.

"Roedd cymorth BAVO yn hollbwysig, doedd dim un o'r pwyllgor wedi bod yn rhan o wneud ceisiadau am gyllid o'r blaen a heb y cymorth a'r arweiniad hwnnw ni fyddai byth wedi'i gyflawni. Os oedd unrhyw broblemau, roeddem ni'n gwybod y gallem ni gysylltu â swyddog ac yn gallu eu datrys. Yn ddi-os, heb wasanaethau BAVO rwy'n amau'n fawr a fyddem ni wedi bod yn llwyddiannus."

## Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen

Cafodd staff Awen eu hyfforddi i weithio gyda thechnolegau newydd i helpu teuluoedd/gofalwyr a phobl hŷn a oedd yn dioddef o iselder, gorbryder a/neu arwyddion cynnar o ddementia. Gwnaethon nhw weithio gyda chleientiaid am gyfnod o 24 wythnos gan ddefnyddio technoleg realiti rhithwir; gan greu profiadau pwrpasol i bob un i'w helpu i gyrraedd eu 'lle hapus'. Cafodd y defnyddwyr fynediad i ystod o brofiadau ymlacio cyffredinol fel myfyrio, ymwybyddiaeth ofalgar ac ymarferion anadlu.

Dywedodd un buddiolwr "Roedd yn teimlo fel cartref, roeddwn i'n teimlo'n hapus."

"Mae'r cyllid hwn wedi ein galluogi i dreialu dull arloesol gan ddefnyddio technoleg newydd i ddarparu profiadau gweddnewidiol a chalonogol i bobl sydd wedi'u hynysu rhywsut."



# Ymgysylltiad a dylanwad

Mae BAVO yn cefnogi nifer o fforymau a rhwydweithiau darparwyr trydydd sector thematig a daearyddol sy'n cynnwys aelodau, gwirfoddolwyr, ymddiriedolwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Mae aelodau'r rhwydweithiau a fforymau yn cydweithio â'i gilydd i ymgynghori, cydgynhyrchu, ymgysylltu, cyfranogi a dylanwadu ar amrywiaeth o grwpiau cyfeirio strategol. Mae eu lleisiau yn darparu cyfeiriad a mandad i BAVO wrth i ni geisio dylanwadu ar gynllunio, polisïau a strategaethau sy'n effeithio ar y sector.

Rydym yn adlewyrchu safbwyntiau a barn y rhwydweithiau amrywiol mewn partneriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rydym bob amser yn ymdrechu i gyflawni cynrychiolaeth uniongyrchol o grwpiau yn y cyfarfodydd partneriaeth amrywiol, ond mae'n anorfod bod hyn yn golygu llawer o amser a chapasiti na all llawer o'r grwpiau ei fforddio. Felly dibynnir ar BAVO i fwydo gwybodaeth i'r rhwydweithiau a gweithredu fel cyfryngwr ar eu rhan.

Mae'r mwyafrif, os nad pob un o'r rhwydweithiau rydym yn rhan ohonynt ar ran ein haelodau, yn effeithio'n uniongyrchol ar 'atal a llesiant'; gwella canlyniadau i bobl yn ein cymunedau, trwy ein haelodau sydd â chyswllt uniongyrchol, ond hefyd trwy ein gwaith presgripsiynu cymdeithasol ein hunain.

Trwy'r pandemig, mae partneriaid allweddol mewn sectorau eraill wedi dod i ddeall y rôl hollbwysig mae'r sector yn ei chwarae a phwysigrwydd darpariaeth leol.

## Beth wnaethom ei gyflawni?

Gwnaethom gyflawni llais iachach, cryfach a thecach a pherthynas rhwng grwpiau gwirfoddol a chymunedol lleol a phartneriaid statudol a'r sector cyhoeddus.

## Sut gwnaethom ni hyn?

- Gwnaethom weithio gyda Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus Pen-y-bont ar Ogwr a Chwm Taf i gynnal asesiad o lesiant y boblogaeth a rhaglen ymgysylltu i fod yn sail i'r Cynllun Llesiant nesaf
- Roeddem ar y bwrdd cynghori i ddatblygu blaen-strategaeth a chynllun busnes Cefnogi Trydydd Sector Cymru.
- Gwnaethom gynnal cyfarfodydd ag aelodau Senedd lleol ac aelodau Cabinet i godi proffil y trydydd sector ac i drafod cyflwr ac anghenion y sector wrth adfer ar ôl Covid.
- Ar y cyd â chyd chynghorau gwirfoddol sirol yng Nghwm Taf, gwnaethom gydlynu a chyd-gynnal y Fforwm Gwerth Cymdeithasol yn gysylltiedig â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.
- Gwnaethom weithio gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i ail-lunio datblygiad iechyd meddwl a chymorth defnyddwyr gwasanaeth ar draws y rhanbarth.
- Gwnaethom weithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig gan gynnig secondiad arbenigol i gefnogi allgymorth i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig mewn ymgais i wella




## Beth wnaethom ei gyflawni?

**13** o fforymau a rhwydweithiau trydydd sector (ac yn tyfu?)

**93** o grwpiau rhanddeiliaid a phartneriaeth

**380** o bobl wedi ymgysylltu â rhwydweithiau, fforymau a digwyddiadau partneriaeth







tegwch brechu a'r nifer sy'n manteisio ar y brechiadau gan wella canlyniadau iechyd.

- Gwnaethom weithio gyda CBS Pen-y-bont ar Ogwr a Chymdeithas Alzheimer gan gynnig secondiad arbenigol i gefnogi gwaith Dementia, gweithgareddau a chyfleoedd i ofalwyr ac aelodau teulu i geisio darparu gwell dealltwriaeth a gwella dulliau ymdopi i'r rhai sy'n ei chael hi'n anodd yn dilyn diagnosis a/neu gyfrifoldebau gofalu.
- Gwnaethom weithio gyda grwpiau Iechyd Meddwl a'r bwrdd iechyd i archwilio materion sy'n cyd-ddigwydd a datblygu cysylltiadau â'r rhai â phrofiad bywyd.
- Gwnaethom weithio gyda Diverse Cymru i weithio trwy'r pecyn cymorth cymhwysedd diwylliannol i'n helpu i wella ac ymestyn ein cyrhaeddiad i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a chymunedau amrywiol eraill. Yn ogystal â gwella ymwybyddiaeth BAVO, helpu eraill i wneud hynny hefyd.
- Gwnaethom weithio gyda chlystyrau meddygon teulu a thimau gwasanaeth integredig, gan ddarparu hyfforddiant a chysylltedd trydydd sector i feddygfeydd a chefnogi cyfeirio i wasanaethau trwy'r gwasanaeth presgripsiynu cymdeithasol/llywiwr cymunedol.
- Gwnaethom greu partneriaeth rhwng CBS Pen-y-bont ar Ogwr a rhaglen ranbarthol enghreifftiol Bevan, Pobl Hŷn Ifanc. Uchelgais y prosiect hwn oedd 'grymuso' pobl hŷn i berchnogi ystod o weithgareddau cymunedol a chyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol a oedd wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd a'u llesiant corfforol a meddwl, a'u cynnal.
- Gwnaethom drefnu digwyddiad ymgynghori ar gyllideb y Cyngor a roddodd lais i'r sector ac a'u galluogodd i gyfrannu ymatebion i gynigion.
- Gwnaethom gymryd rhan yng nghynllun cymorth i Ffoaduriaid Syria ac Afghanistan, ac mewn gwaith ffurfio cynnar y bartneriaeth aml-asiantaeth sy'n cefnogi argyfwng Wcráin.
- Daethom yn aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl i ddatblygu modelau gweithio newydd a chyfeiriad strategol ar gyfer comisiynu gwasanaethau ledled y rhanbarth.
- Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus a Co-Pro Cymru ac wedi penodi a hyfforddi hyrwyddwyr Co-pro yn BAVO i gefnogi'r cam nesaf o waith ymgysylltu'r Bwrdd.



"Fe wnaethom ni ddysgu gweithio mewn partneriaeth â grwpiau a oedd yn rhannu'r un ethos â ni ac a oedd yn hapus i'n cefnogi, fel yr oeddem ni iddyn nhw. I'r rhai a ddewisodd weithio'n wahanol, fe wnaethom ni ofyn iddyn nhw ein helpu i roi gwybod i'w haelodau am ein gweithgareddau ac y byddem ni'n gwneud yr un peth iddyn nhw."

# Llywio Cymunedol a phresgripsiynu cymdeithasol

Fel sefydliad annibynnol rydym yn y sefyllfa berffaith i ddarparu cymorth ac arweiniad diduedd i bobl y mae angen cymorth arnyn nhw. Gyda thîm arbenigol yn gwasanaethu'r Sir gyfan, roeddem yn gallu cynnal trafodaethau 'beth sy'n bwysig' gyda phobl a gafodd eu hatgyfeirio i ni, a'u llywio i'r gwasanaeth neu'r ddarpariaeth a oedd yn diwallu eu hanghenion orau. Mae'n anorfod ein bod yn dibynnu ar yr adnoddau gwych yn ein trydydd sector at y diben hwn, ac yn eu defnyddio.

Nid yw'r gwasanaeth llywiwr a'r sefydliadau maen nhw'n cyfeirio iddyn nhw ar wahân i'n gwaith neu brosiectau eraill. Mae tîm Datblygu BAVO yn cynnig cymorth parhaus i'r sefydliadau darparu hyn, mae ein gwasanaethau cyllid a ffrydiau grant yn darparu buddsoddiad, ac mae ein datblygwyr Rhwydwaith yn eu cysylltu â'i gilydd, naill ai fesul thema neu ddaearyddiaeth. Mae'n un jig-so mawr sy'n ein cyd-gysylltu ni i gyd, mae'n fuddiol i bawb ac mae'n creu sector dyfeisgar a chysylltiedig, a chymunedau cydnerth.

## Beth wnaethom ei gyflawni?

**1,285** o achosion unigol wedi'u cefnogi

**100%** o asesiadau wedi'u cyflawni ar amser

**190** o grwpiau trydydd sector a sefydliadau partner yn hyderus i gefnogi ein hatgyfeiriadau

**784** o dalebau bwyd wedi'u dosbarthu

**1,339** o oedolion a phlant wedi'u bwydo

## Pa wahaniaeth wnaethom ni?

**98%** wedi derbyn y cymorth a gynigiwyd

**99%** o ymatebwyr yn hapus â'r cymorth a gafwyd (Graddfa Llesiant Meddwl Warwick–Caeredin)

**94%** o ymatebwyr yn teimlo bod y cymorth wedi cael effaith gadarnhaol

"Nawr rwy'n mynd i 4 gweithgaredd yr wythnos, ac rwy'n gwybod bod mwy ar gael os ydw i ei eisiau. Mae'n fy ngwneud i'n hapus ac i deimlo mod i ddim ar fy mhen fy hun. Yn flaenorol roeddwn i'n teimlo fel yr unig berson yn y byd, ond nawr rwy wedi cwrdd ag eraill sydd mewn sefyllfa debyg. Rwy'n teimlo fel fy mod i'n dod allan o dwnnel hir tywyll ac yn teimlo mwy o gymhelliant i wneud pethau yn y tŷ."

"Rwy mor ddiolchgar i'r Swyddog Brocera am ei holl gymorth i gael yr holl gynnydd hyn yn digwydd. Rwy wedi gweld newid enfawr yn fy nhad nawr ei fod yn rheoli ei gyflyrau yn llawer gwell."

"Gwnaethon nhw roi'r hyder i mi drwy ddod gyda fi i'r grŵp – fyddwn i ddim wedi gallu gwneud heb y Llywiwr. Fe wnaeth hi esbonio pethau mewn ffordd doedd dim pwysau ac roeddwn i'n gallu neidio mewn a mas a rhoddodd yr anogaeth a'r hyder i mi gamu trwy'r drws ffrynt."

"Mae hyn wedi rhoi mwy o hyder i fi. Nawr rwy'n teimlo fel y gallwn i fynd i mewn i dacsi ar fy mhen fy hun a fyddwn i byth wedi gwneud hynny o'r blaen. Mae'r grŵp wedi rhoi ffrindiau i fi ac rwy'n teimlo fel fy mod i wedi dod allan o'r gragen roeddwn i ynddi. Rwy'n dal i boeni fel mae pawb yn gwneud ond rwy'n byw fy mywyd nawr ac yn ôl i sut roeddwn i'n arfer bod ac mae gen i rywbeth i edrych ymlaen ato bob wythnos."

Rhiant oedolyn ag anawsterau dysgu: "Roeddwn i'n teimlo'n anobeithio fel rhiant – doeddwn i ddim yn gwybod ble i fynd nesaf. Roeddwn i'n cael fy nghuro yn ôl. Ers cyfarfod y Llywiwr mae fy mab yn fwy allblyg. Mae'r teulu wedi sylwi hyd yn oed. Rwy'n teimlo fel ein bod ni'n symud ymlaen ac yn cyrraedd rhywle. Nawr mae'n allblyg a bydd e'n cyfathrebu beth mae eisiau ei wneud."

# Cyllid

## Datganiad yr archwilwyr annibynnol i Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol cryno Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

### Priod gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr a'r archwilwyr

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol ag argymhellion y SORP elusennau.

Ein cyfrifoldeb ni yw rhoi gwybod i chi beth yw ein barn ar gysondeb y datganiadau ariannol cryno gyda'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr. Rydym hefyd yn darllen y wybodaeth arall sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad blynyddol cryno ac yn ystyried y goblygiadau i'n hadroddiad os byddwn yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol cryno.

### Sail y farn

Roedd ein harchwiliad yn cynnwys cytuno ar y balansau a ddatgelwyd yn y datganiadau ariannol cryno i'r datganiadau ariannol blynyddol llawn. Mae ein hadroddiad ar ddatganiadau ariannol blynyddol llawn yr elusen yn disgrifio sail ein barn ar y datganiadau ariannol hynny ac ar adroddiad yr Ymddiriedolwyr.

### Barn

Yn ein barn ni mae'r datganiadau ariannol cryno yn gyson â'r datganiadau ariannol llawn ac Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolwyr Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022.

**Bevan & Buckland**
Llawr Gwaelod, Tŷ Aberteifi
Llys y Castell
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

### Datganiad gan yr Ymddiriedolwyr

Nid yw'r datganiadau ariannol cryno hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 yn gyfrifon statudol llawn y gymdeithas, ond maen nhw'n cynnwys crynodeb o wybodaeth a dynnwyd o'r cyfrifon blynyddol sy'n ymwneud â'r datganiad o weithgareddau ariannol [DOWA] a'r fantolen.

Mae'n bosibl na fydd y datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i ganiatâu dealltwriaeth lawn o faterion ariannol yr elusen. I gael rhagor o wybodaeth, dylid ymgynghori â'r datganiadau ariannol llawn ac adroddiad blynyddol yr Ymddiriedolwyr; gellir cael copïau o'r rhain ar gais i BAVO.

Rhaid i'r datganiadau ariannol llawn fod yn destun archwiliad allanol gan archwilydd annibynnol a rhaid derbyn adroddiad diamod.

Cymeradwywyd yr adroddiad llawn a'r datganiadau ariannol gan yr Ymddiriedolwyr ar 19 Gorffennaf 2022 ac maen nhw wedi cael eu cyflwyno i'r Comisiwn Elusennau ac i Gofrestrydd y Cwmnïau.

# Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)
## Mantolen
## Ar 31 Mawrth 2022

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2022 Cyfanswm y Cronfeydd £ | 2021 Cyfanswm y Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | **187,874** | **-** | **187.874** | **199,441** |
| | | | | |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Dyledwyr | 140,904 | - | 140,904 | 43,003 |
| Arian yn y banc ac mewn llaw | 1,765,660 | 595,622 | 2,361,282 | 2,171,322 |
| | **1,906,564** | **595,622** | **2,502,186** | **2,214,325** |
| | | | | |
| **CREDYDWYR** | | | | |
| Amounts falling due within one year | (281,242) | - | (281,242) | (204,682) |
| | | | | |
| **ASEDAU NET CYFREDOL** | **1,625,322** | **595,622** | **2,220,944** | **2,009,643** |
| | | | | |
| **CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL** | **1,813,196** | **595,622** | **2,408,818** | **2,209,084** |
| | | | | |
| **ASEDAU NET** | **1,813,196** | **595,622** | **2,408,818** | **2,209,084** |
| | | | | |
| **CRONFEYDD** | | | | |
| Cronfeydd anghyfyngedig | | | 1,813,196 | 1,606,330 |
| Cronfeydd cyfyngedig | | | 595,622 | 602,754 |
| | | | | |
| **CYFANSWM Y CRONFEYDD** | | | **2,408,818** | **2,209,084** |

# Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont (BAVO)
## Datganiad o weithgareddau ariannol y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022

| | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | 2022 Cyfanswm y Cronfeydd £ | 2021 Cyfanswm y Cronfeydd £ |
|---|---|---|---|---|
| **INCWM A CHRONFEYDD GWADDOL O** | | | | |
| Rhoddion a chymynroddion | 70 | 100 | 170 | 1,034 |
| Weithgareddau masnachu eraill | 21,901 | - | 21,901 | 47,389 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 671 | - | 671 | 1,628 |
| Gweithgareddau elusennol | 290,411 | 1,025,888 | 1,316.299 | 1,370,031 |
| Incwm arall | - | - | - | 2,449 |
| **Cyfanswm** | **313,053** | **1,025,988** | **1,339,041** | **1,422,531** |
| | | | | |
| **GWARIANT AR** | | | | |
| Codi arian | - | - | - | 2,905 |
| Gweithgareddau elusennol | 95,886 | 1,043,421 | 1,139,307 | 898,068 |
| **Cyfanswm** | **95,886** | **1,043,421** | **1,139,307** | **900,973** |
| | | | | |
| **INCWM NET** | **217,167** | **(17,433)** | **199,734** | **521,558** |
| | | | | |
| **Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd** | (10,301) | 10,301 | - | - |
| | | | | |
| **Symudiad net mewn cronfeydd** | **206,866** | **(7,132)** | **199,734** | **521,558** |
| | | | | |
| **CYSONI CRONFEYDD** | | | | |
| **Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen** | **1,606,330** | **602,754** | **2,209,084** | **1,687,526** |
| **CYFANSWM YR CRONFEYDD A DDAETH YMLAEN** | **1,813,196** | **595,622** | **2,408,818** | **2,209,084** |




Hoffai BAVO ddiolch yn arbennig i'n holl gynrychiolwyr yn y trydydd sector sy'n rhoi o'u hamser am ddim i fynd i gyfarfodydd strategol er mwyn sicrhau y clywir llais y trydydd sector.

Hoffem ni hefyd ddiolch i'n haelodau am eu cefnogaeth, anogaeth ac ymgysylltiad parhaus mewn cyfnod hynod heriol; ac am bob dim maen nhw'n ei wneud yn eu cymunedau.

Hoffem hefyd ddiolch i'n cyllidwyr:

**Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Sir Penybont**

112 – 113 Heol y Fasnach, Maesteg, CF34 9DL • Ff 01656 810400 • E: bavo@bavo.org.uk
Rhif cwmni: 07691764 • Rhif cofrestru'r elusen: 1146543 • Tachwedd 2022 • © BAVO

**www.bavo.org.uk**